*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 1154

## Rheoliadau Tir Mynydd (Daliadau Trawsffiniol) (Cymru) 2001

**Dyrannu swmp cyfeiriol unigol o laeth ar ddaliadau a leolir yn rhannol y tu allan i Gymru**

**8.** Pan fydd unrhyw ddaliad y mae cais wedi'i wneud mewn perthynas ag ef wedi'i leoli yn rhannol y tu allan i Gymru, rhaid cyfrifo'r swmp cyfeiriol unigol o laeth a ystyrir fel pe bai ar gael i geisydd mewn perthynas â'r tir yng Nghymru fel a ganlyn:—

$$A \quad B \times X + Y$$

ac

"**X**" yw arwynebedd porthiant y gwneir cais amdano y rhan honno o'r daliad a leolir yng Nghymru mewn hectarau;

"**Y**" yw cyfanswm arwynebedd porthiant y gwneir cais amdano y daliad hwnnw mewn hectarau;

"**B**" yw cyfanswm swmp cyfeiriol unigol o laeth sydd ar gael i'r ceisydd mewn perthynas â'r daliad hwnnw; ac

"**A**" yw'r swmp cyfeiriol unigol o laeth a ystyrir fel pe bai ar gael i'r ceisydd mewn perthynas â'r rhan honno o'r daliad a leolir yng Nghymru.